***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 9

# DIWYGIADAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG

## RHAN 1

## CREU SWYDDOGAETHAU CYNLLUNIO STRATEGOL AR GYFER CYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG PENODOL A DIDDYMU'R PWERAU I SEFYDLU PANELI CYNLLUNIO STRATEGOL ETC.

### *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23)*

42 (1) Mae paragraff 1 o Atodlen 6 i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (cynlluniau morol: eu llunio a'u mabwysiadu) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (2), ym mharagraff (f), yn lle "strategic planning panel whose strategic planning" rhodder "corporate joint committee whose".

(3) Yn is-baragraff (3)—

(a) yn y lle priodol mewnosoder—

""corporate joint committee" means a corporate joint committee to which Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 applies by virtue of regulations under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021;";

(b) hepgorer y diffiniad o "strategic planning panel".